**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**O bell drwy *Microsoft Teams***

**Dydd Gwener, 9 Ebrill 2021 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | P Downing |
| S J Gallagher | P Lloyd | H M Morris |
| C L Philpott | L V Walton | |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr |
| Richard Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): N J Davies, B J Rowlands and L G Thomas (L G Thomas am gofnod rhif 29, 30, 31 a 32 yn unig).

---

## 29 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 30 Cofnodion

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2021, yn gofnod cywir.

## 31 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 32 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Trwydded i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat – KGR

Dywedodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch a'r Cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r Pwyllgor y bu newid mewn amgylchiadau o ran y mater ac roedd yn ceisio cymeradwyaeth y pwyllgor i ohirio ystyried y mater tan gyfarfod nesaf y pwyllgor.

**Penderfynwyd:**

1. Gohirio'r mater tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.

## 33 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Trwydded i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat – VM

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â VM.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd VM, yng nghwmni BW, cynrychiolydd cyfreithiol, y sefyllfa mewn perthynas â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau gan aelodau.

**Penderfynwyd:**

1. **Gwrthod** cais VM i adnewyddu'r drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat

**<u>Rheswm dros y Penderfyniad</u>**

Nid oedd VM wedi bodloni’r aelodau ei fod yn berson addas a phriodol a diogel i gadw'r drwydded dan adrannau 3.30 a 3.32 o'r arweiniad ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded yn y busnes cerbydau hacni a hurio preifat.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10pm

**Cadeirydd**